



# Adroddiad Blynyddol

## CEM A STI PARC

**MAWRTH 2009 – CHWEFROR 2010**

**DYDDIAD CYHOEDDI:**

**Mehefin 28<sup>ain</sup> 2010**

### **RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL (IMB)**

Yn ôl Deddf Carchardai 1952 a Deddf Lloches a Mewnfudo 1999 mae'n rhaid i bob carchar a Chanolfan Symud Mewnfudwyr (IRC) gael eu monitro gan Fwrdd Annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o blith aelodau'r gymuned ble lleolir y carchar neu'r ganolfan.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb penodol am:

- (1) Ei fodloni ei hun fod triniaeth y rhai a gedwir yn ei garchar yn ddyngar ac yn gyfiawn a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn addas.
- (2) Hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae hwn wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y barno'n briodol, yn ddi-oed, am unrhyw bryder sydd ganddo.
- (3) Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y sawl sydd yn y ddalfa.

Er mwyn caniatáu i'r Bwrdd gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau'r hawl i fynd at bob carcharor a phob rhan o'r carchar a hefyd at gofnodion y carchar.

### CRYNODEB O'R CYNNWYS

Adran 1	Rôl Statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB)	Tudalen 2
Adran 2	Crynodeb o'r Cynnwys	Tudalen 3
Adran 3	Disgrifiad o'r carchar	Tudalen 4
Adran 4	Crynodeb Gweithredol	Tudalennau 5 a 6
Adran 5	Meysydd y mae'n rhwym ar y Bwrdd adrodd arnynt:	
Adran 5.1	Amrywiaeth	Tudalen 7
Adran 5.1.1	Poblogaeth Carcharorion Duon a Lleiafrifoedd Ethnig	Tudalen 7
Adran 5.2	Dysgu a Sgiliau [Addysg]	Tudalennau 7 ac 8
Adran 5.2.1	Jig-so	Tudalen 8
Adran 5.3	Dysgu a Sgiliau [Diwydiannau]	Tudalen 8
Adran 5.4	Gofal Iechyd	Tudalennau 8 a 9
Adran 5.5	Uned Gofal a Gwahanu	Tudalen 9
Adran 5.6	Uned Pobl Ifanc	Tudalen 9
Adran 5.7	Carchariad Diogelach	Tudalen 10
Adran 5.7.1	Lleihau Trais	Tudalen 10
Adran 6	Meysydd eraill y mae'r Bwrdd yn dymuno adrodd arnynt:	
Adran 6.1	Llety	Tudalen 11
Adran 6.2	Ymweliadau	Tudalen 11
Adran 6.3	Cwestau	Tudalen 11
Adran 6.4	Arlwyo	Tudalen 11
Adran 6.5	Staff	Tudalen 11
Adran 6.6	Caplaniaeth	Tudalen 11
Adran 6.7	Adroddiad a Chynllun Gweithredu Arolygiaeth Carchardai EM	
Adran 7	Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol:	
Adran 7.1	Dyletswyddau Statudol, Cyffredinol a Phenodol	Tudalen 12
Adran 7.2	Ymweliadau Rota	Tudalen 12
Adran 7.3	Hyfforddiant	Tudalennau 12 a 13
Adran 7.4	Ceisiadau	Tudalen 13
Adran 7.5	Crynodeb o'r Ceisiadau am weld y Bwrdd	Tudalen 13
Adran 7.6	Cyfarfodydd Mewnol ac Allanol	Tudalen 14
Adran 7.7	Geirfa Talfyriadau	Tudalen 14

### DISGRIFIAD O'R CARCHAR

Mae CEM a STI Parc yn sefydliad lleol categori B ac yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc sydd â'r elfennau cytunedig canlynol:-

- i) Llety Arferol Ardystiedig Sylfaenol o 838
- ii) Capasiti gweithredol cyfredol o 1146 (Chwefror 2010)
- iii) Capasiti gweithredol o 1200

Agorwyd CEM a STI Parc ar 17<sup>eg</sup> Tachwedd 1997, a hwn yw'r unig garchar a redir yn breifat yng Nghymru. Fe'i rheolir gan Wasanaeth Gofal a Chyfiawnder G4S ar ran y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Caiff llawer o staff y carchar eu recriwtio o'r ardal leol.

Ar y cyd â'r holl sefydliadau wedi'u contractio, mae gan CEM a STI Parc Reolydd. Mae'r Rheolydd yn gyfrifol am y contract 25 mlynedd rhwng Y Gwasanaeth Carchardai a G4S, ac mae'n atebol yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwyr (Cymru).

Dechreuodd y gwaith o adeiladu 6 uned newydd ar 2<sup>il</sup> Mawrth 2009. Bydd hyn yn creu lle i 326 o welyau carcharorion ychwanegol. Mae hefyd yn cynnwys estyniadau i Gyfleusterau, Diwydiannau, Ymweliadau a'r Gegin, gyda 2 Ardal Chwaraeon newydd a Lleoliad Hyfforddi Allanol newydd. Disgwylir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn 31<sup>ain</sup> Hydref 2010. Oherwydd y gwaith adeiladu, mae'r amodau gwaith o fewn y carchar wedi bod yn anodd i bawb yn ystod y cyfnod adrodd.

Asiantaeth sy'n cyflenwi gwasanaethau:

- Iechyd – Primecare Forensic Medical Services Ltd
- Cynnal a Chadw – Balfour Beatty Workplace
- Gwasanaethau Llyfrgell – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyrff Gwirfoddol

- Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Undeb y Mamau – cymorth gyda'r cyfleusterau crèche
- Samaritans – yn cynnwys hyfforddi *Listeners*

Roedd yr Ymwelwyr Adnabyddus a ymwelodd â'r sefydliad yn ystod y flwyddyn adrodd yn cynnwys:

- Maria Eagles, AS, Gweinidog Gwladol, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Chris Grayling, AS, Ysgrifennydd Cartref yr Wrthblaid
- Dominic Grieve, AS, Ysgrifennydd Cyfiawnder yr Wrthblaid
- Madeleine Moon, AS (etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr)
- Huw Irranca-Davies, AS (etholaeth Ogwr)
- Jon Drew – Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- Pwyllgor Diwylliannau a Chymunedau Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Aelodau o Wyl Lenyddol Y Gelli Gandryll

### CRYNODEB GWEITHREDOL

#### **(a) Materion penodol a godwyd yn yr adroddiad y mae'r Bwrdd yn disgwyl ateb iddynt:**

##### **(i) Materion polisi, ble disgwylir ateb gan y Gweinidog:**

- ❑ Derbyniwyd grant tymor byr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darpariaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed [CAMHS] ac mae wedi bod yn werthfawr iawn – rydym yn cymell Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i ariannu hyn ar ôl Gorffennaf 2010. [Uned Pobl Ifanc 5.6]
- ❑ Rydym yn cymell y Llywodraeth i gyflymu'r broses o gadw Gwladolion Tramor ar ôl dyddiad terfyn eu dedfrydau. [Gwladolion Tramor 5.1.2]
- ❑ Mae'r Bwrdd yn cymell y Gweinidog i edrych yn fanwl ar y sefyllfa sy'n ymwneud â'r niferoedd o gleifion iechyd meddwl / carcharorion a anheddir yn yr Uned Gofal Iechyd pan ei bod yn gwbl amlwg y dylent fod mewn unedau ysbyty diogel.
- ❑ Cynhaliwyd cwest yn ddiweddar i farwolaeth troseddwr ifanc a drengodd ym mis Mehefin 2006 - mae llawer o'r argymhellion a wnaed gan y Crwner wedi eu gweithredu eisoes gan G4S, ond mae'r Bwrdd yn barnu bod y nifer o gwestau sy'n dal heb eu cynnal yn annerbyniol a chredwn fod gan y teuluoedd a phawb arall sy'n ymwneud â'r rhain yr hawl i derfyniad, cymhellwn y Gweinidog i gymryd y camau priodol er mwyn datrys hyn. [Ymholiadau 6.3]
- ❑ Rydym yn cytuno ag argymhelliad y Crwner yn yr cwést diweddar y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder roi ystyriaeth i'r pryderon ynghylch y diffyg uned arbenigol yng Nghymru ar gyfer carcharorion sydd ar remând.

##### **(ii) Materion gweithredol y mae'r Bwrdd yn disgwyl ateb iddynt a baratowyd gan, neu a gomisiynwyd gan y Cyfarwyddwr Rheoli Troseddwr yng Nghymru:**

- ❑ Mae'r Bwrdd yn argymhell monitro ymweliadau heb arolygaeth, darparu gweithgareddau mwy adeiladol a chanolbwyntiedig a strategaeth gefnogi fwy trylwyr er mwyn lleihau'r nifer o Bobl Ifanc sy'n destun adroddiad neu wedi'u cyfyngu yn eu celloedd. [Uned Pobl Ifanc 5.6]
- ❑ Mae'r Bwrdd yn cymell G4S i sicrhau bod darparu Sgiliau Sylfaenol yn brif flaenoriaeth. [Dysgu a Sgiliau 5.2]
- ❑ Mae'r Bwrdd yn cymell G4S i ymchwilio i'r problemau sy'n codi dro ar ôl tro gydag apwyntiadau deintyddol, diffyg apwyntiadau a phobl sy'n colli apwyntiadau. [Gofal Iechyd 5.4]
- ❑ Mae'r Bwrdd yn cymell G4S i wasgaru'r niferoedd sy'n mynychu apwyntiadau cleifion allanol ar yr un adeg yn yr Uned Gofal Iechyd fel y bydd yn haws delio â'r niferoedd. [Gofal Iechyd 5.4]
- ❑ Mae'r Bwrdd yn cymell G4S i gyflwyno gweithdrefnau fel y gellir trin ceisiadau'n gyflym ar yr adain gan staff yr adain / swyddogion personol yn hytrach na'u hanfon yn uniongyrchol i'r IMB. [Ceisiadau 7.4]
- ❑ Mae'r Bwrdd yn cymell G4S i roi gwybod iddynt am ddigwyddiadau allgyrsiol fel y gall y carcharorion, staff a'r IMB ddathlu arfer da. [Dysgu a Sgiliau 5.2]

#### **(b) Materion eraill a godwyd yn yr adroddiad nad oes angen ateb iddynt:**

##### **(i) Materion o bryder i'r Bwrdd:**

- ❑ Mae pryder parhaus ynghylch carcharorion sy'n mynd i apwyntiadau cleifion allanol yn yr ysbyty lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd yn y golwg yn yr ardal aros gyhoeddus ar ôl y driniaeth cyn cael eu hebrwng yn ôl i'r carchar – nid yw hyn yn addas i'r carcharorion nac i'r cyhoedd. [Gofal Iechyd 5.4]

**(ii) Enghreifftiau o arfer gorau:**

- ❑ Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r dull dim goddefgarwch a fabwysiedir gan reolwyr Parc tuag at fwlio ac mae'n falch o nodi'r amrywiaeth o strategaethau sydd ar gael i ddelio â hyn. [Lleihau Trais 5.7.1]
- ❑ Llwyddiant *Hay in the Parc* yn y Parc 2009.
- ❑ Y cyflawnydd 4<sup>ydd</sup> gorau yn y DU yng Nghystadleuaeth Gelf Koestler.
- ❑ Y ffilm "My Dad in Prison" a grëwyd gan Raglen Ymyrraeth Parc yn Cefnogi Teuluoedd.
- ❑ Mae'r Bwrdd yn canmol Parc am ei Wobr Buddsoddwr mewn Pobl, am ei brosiectau niferus yn gweithio gyda'r gymuned sy'n rhoi cyfle i garcharorion addas gymryd rhan mewn prosiectau yn y gymuned leol a thu hwnt.

**(c) Barn Gyffredinol:**

- ❑ Yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol mae'r amodau gwaith yn CEM a STI Parc wedi bod yn anodd oherwydd y gwaith ehangu. Mae'r carcharorion a'r staff wedi ymdopi'n dda â'r cyfnod trawsnewid hwn ac maent yn haeddu canmoliaeth.
- ❑ Mae Parc yn parhau i ymdrechu i sicrhau bod yr holl garcharorion yn ddiogel ac yn cael eu trin yn ddyngar, gydag urddas, tegwch a pharch.
- ❑ Mae Parc yn parhau i wneud gwaith rhagorol gyda'i chysylltiadau â'r gymuned e.e. *Hay in the Parc*, Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dylid dathlu arfer da fel bod y gymuned yn gyffredinol yn ymwybodol o'r cysylltiadau cadarnhaol ac arloesol hyn.
- ❑ Mae'r carcharorion yn dal i gael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd a grwpiau ffocws ac maent yn cael cyfle i fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio ar eu lles ac yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu cymuned garchar.

## Adran 5

### **MEYSYDD Y MAE'N RHWYM AR Y BWRDD ADRODD ARNYNT**

#### **5.1 Amrywiaeth**

Mae'r Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynnwys y Rheolydd Cydraddoldeb, y Swyddog Amrywiaeth a Chydraddoldeb Hiliol a'r Cydlynnydd Gwladolion Tramor.

Penodwyd Cynrychiolwyr Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer yr unedau ac mae'r rhain yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i'w helpu i gyflawni eu rôl yn llwyddiannus yn y carchar. Maent yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAT) bob deufis, ac maent hefyd wedi cymryd rhan ym mhroses sefydlu'r carchar.

Mae grwpiau ffocws wedi parhau i gael eu cynnal yn fisol, gyda grwpiau ffocws gwahanol ar gyfer oedolion, troseddwyr ifanc, teithwyr sipsiwn a Romani a charcharorion agored i niwed. Mae'r grwpiau hyn wedi canolbwyntio ar faterion sydd wedi effeithio ar y boblogaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), ac maent wedi sicrhau bod y pryderon hyn wedi cael eu trin yn briodol.

Mae CEM Parc wedi cyfnerthu ei gysylltiadau gydag asiantaethau allanol, yn cynnwys fforymau cymunedol, a sefydliad Stonewall. O ganlyniad i'r olaf cafodd G4S ei gynnwys yn y *Canllaw Recriwtio Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol, Starting Out*.

##### **5.1.1. Poblogaeth Carcharorion Duon a Lleiafrifoedd Ethnig**

Y boblogaeth gyfartalog o garcharorion o leiafrifoedd ethnig yn CEM Parc yn ystod 2009 [Ionawr i Ragfyr] oedd 11%, sef cynnydd o 2% ers ein hadroddiad diwethaf. Y niferoedd o wahanol grwpiau ethnig o fewn y boblogaeth flynyddol gyfartalog o 1,169 yn CEM Parc yn 2009 oedd:

Asiaidd	32
Du	58
Cymysg	29
Eraill	8
Gwyn	1,025
Gwyn eraill	14
Ni ddatgelwyd	4

##### **5.1.2 Carcharorion sy'n Wladolion Tramor**

- **Mae'r Bwrdd yn nodi bod Carcharorion sy'n Wladolion Tramor a gedwir ar ôl dyddiad terfyn eu dedfrydau, yn enwedig os cânt eu cadw er eu lles eu hun mewn Uned Diogelwch Cymunedol (CSU), yn achos pryder parhaus.**

#### **5.2 Dysgu a Sgiliau (Addysg)**

Mae Adran Addysg Parc yn darparu 42 cwrs dan y pennawd Dysgu a Sgiliau. Mae adroddiad perfformiad yr Adran yn nodi eu bod wedi cyflawni cyfradd gyrhaeddiad ardderchog o 92.49% yn 2009, gyda 2,044 o ddysgwyr allan o 2,210 cofrestrriad yn cwblhau eu cwrs astudio. Ers Ebrill 2009, dilynir y Cwricwlwm Cenedlaethol. Gwelwyd gwelliant yn y canlyniadau TGAU/lefel A y llynedd.

- **Mae'r Bwrdd yn canmol y ffordd y mae'r Adran wedi ymaddasu i aflonyddwch y gwaith adeiladu yn Parc heb golli darpariaeth na chymhwyster.**

Er ei bod yn gwbl eglur bod llawer o gyrsiau'n cael eu cynnig yn Parc, roedd bron yn amhosibl i'r Bwrdd ddarganfod pa gyfran o'r carcharorion sy'n dilyn y cyrsiau hyn. Mae adborth y carcharorion yn dangos boddhad mawr ar ran y rhai sy'n cyfranogi ond rhwystredigaeth gan y rhai sy'n methu â chael mynediad i'r cyfryw gyrsiau.

Mae anhawster cael mynediad hefyd yn nodweddiadol o'r cyrsiau a redir gan yr Adran Adsefydlu, e.e. Pasro, Covaid, Cerddoriaeth mewn Carchardai, ac ati.

Mae'n dda gan y Bwrdd weld darpariaethau sgiliau mwy sylfaenol yn cael eu cyflwyno'n raddol – llythrennedd, rhifedd, coginio, paentio ac addurno, mecaneg foduron a golchi dillad, ond eto mae bron yn amhosibl asesu'r gwir nifer o garcharorion sy'n cael budd o'r rhain ac sy'n gadael Parc yn llythrennog ar y lefel fwyaf sylfaenol hyd yn oed.

- **Mae'r Bwrdd yn cymell G4S i sicrhau bod addysg sgiliau sylfaenol yn cael ei blaenoriaethu pan fydd y gyfundrefn newydd yn gweithredu yn Parc. Dylai hwn fod yn darged craidd.**
- **Mae'r Bwrdd yn cymell G4S i roi gwybod iddyn nhw ac i weddill y gymuned garchar am ddigwyddiadau allgyrsiol.**

**5.2.1 'Jig-so'** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd datblygiad 'Jig-so', sef menter ddysgu Adsefydlu sydd â'r nod o ennyn diddordeb rhai o'r oedolion a throseddwy'r ifanc mwyaf anodd trwy glustnodi anghenion arbennig a chyflwyno darpariaeth arbennig. Mae achredu ar gael o'r Lefel Mynediad ac mae'n cynnwys sgiliau cysylltiedig â gwaith ynghyd â datblygiad personol.

### **5.3 Dysgu a Sgiliau (Diwydiannau)**

Mae diwydiannau yn rhan bwysig o'r Adran Addysg, gan ddefnyddio prosesau gweithgynhyrchu a chontractau, o fewn G4S a thu allan i'r Carchar.

Er bod y gostyngiad mewn gweithgareddau pwrpasol a gyflwynwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi arwain i darged o 26 awr, mae cynllun i gynnig gwaith rhan-amser i fwy o garcharorion ar y gweill. Ceir tua 285 o leoedd amser llawn yn y cyfaddellad, ac mae hyn eto yn annigonol o gymharu â maint y carchar.

- **Mae'r Bwrdd yn canmol G4S am ehangu ei raglen Dysgu a Sgiliau, e.e. Cyrsiau sy'n arwain i Gymwysterau NVQ a City and Guilds.**

Fodd bynnag, nid oes gan y Carchar adnoddau digonol ar gyfer darparu'r lleoedd hyfforddi i'w boblogaeth. Mae ganddo gyfleusterau carchar lleol, ond eto mae wedi ei ddynodi fel Carchar Categori B, ac mae'n cael anhawster i gyflawni'r rôl hon.

- **Mae'n dda gan y Bwrdd weld bod yr Adran Arddwriaethol wedi symud i'w lleoliad newydd, sy'n cynnwys polydwnnel, siediau offer a swyddfeydd.**

Mae'r ardd goffa staff hardd ger mynedfa'r carchar yn enghraifft ardderchog o'i hymdrechion blaenorol. Crëwyd hon gan y carcharorion, ac mae wedi gwella golwg y mynediad i'r carchar yn sylweddol.

### **5.4 Gofal Iechyd**

Penodwyd Rheolydd Gofal Iechyd gweithredol yn ystod y cyfnod adrodd, ac ers iddo gael ei benodi, mae'r lefelau staffio wedi gwella yn yr adran ac o ganlyniad, morâl y staff.

Mae'r broblem gydag apwyntiadau deintyddol yn un barhaus. Mae dadansoddiad o'r ystadegau a ddarparwyd yn dangos bod cyfran sylweddol o amser y Deintyddion yn cael ei wastraffu am fod carcharorion yn colli eu hapwyntiadau. Mae problem hefyd gydag apwyntiadau am driniaeth barhaus. Mae'r rhain wedi cael eu datrys drwy benodi swyddog dynodedig sy'n delio â'r amserlenni apwyntiadau gan drefnu rhai ychwanegol i ragweld colli apwyntiadau, er mwyn mwyhau'r defnydd o adnoddau prin y deintyddion.

- **Mae'r Bwrdd yn dal i bryderu ynghylch y problemau sy'n codi dro ar ôl tro yn Deintyddiaeth.**

Mae'r ardal aros yn Gofal Iechyd yn anaddas ar gyfer y niferoedd y mae'n rhaid eu trin. Ar brydiau, gall hyd at gant o garcharorion fod yn aros mewn ardal gyfyng dros ben sydd â seddau i bump ar hugain, heb fynediad uniongyrchol i ddŵr yfed na chyfleusterau toiled. Gall y carcharorion fod yn aros am ddwy i dair awr weithiau. Gall problemau staffio ar yr adenydd olygu hefyd bod grwpiau gwasgarog yn cael eu hanfon am driniaeth ar yr un pryd.

- **Mae'r Bwrdd yn cymell blaenoriaethu mynd i'r afael â'r materion hyn.**



Mae materion iechyd meddwl yn dal i fod yn broblem gyda llawer o gleifion mewnol yn yr adain ysbyty yn dioddef o broblemau iechyd meddwl. Mae'r tîm gofal iechyd wedi parhau i ddarparu triniaeth a chefnogaeth ardderchog i'r holl garcharorion.

- **Mae'r Bwrdd yn nodi bod yr Unedau CSU a Gofal Iechyd wedi cael eu defnyddio i ddal carcharorion a ddylai fod mewn ysbyty diogel. Teimla'r Bwrdd fod hyn yn annheg â'r staff, gan fod gofal y cleifion/carcharorion hyn yn dreth ar yr adnoddau staff.**

Mae pryder parhaus dros garcharorion sy'n mynd i apwyntiadau cleifion allanol yn yr ysbyty lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd yn y golwg yn yr ardal aros gyhoeddus ar ôl cael triniaeth cyn iddynt gael eu hebrwng yn ôl i'r carchar – nid yw hyn yn addas i'r carcharorion nac i'r cyhoedd.

## **5.5 Uned Gofal a Gwahanu**

Mae'r Uned Gofal a Gwahanu yn dal carcharorion a symudwyd o'u lleoliad arferol a'u gosod ar Reol Carchardai 45 neu Reol Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc 49 ("Er Lles y Carcharorion eu Hun" neu "Trefn neu Ddisgyblaeth Dda") neu sy'n destun ymchwiliad neu gosb.

Mae'r uned yn cynnwys pedair cell ar hugain (un ar hugain ar gyfer gwahanu, un heb ddodrefn, a dwy gell arbennig).

- **Mae'r Bwrdd yn credu bod yr Uned yn cael ei rheoli'n dda iawn, o ystyried y pwysau a roddir ar gyfleuster sy'n gorfod cynnal carchar gyda 1200 o oedolion a throseddwy'r ifanc.**

Ers ailgyflwyno'r Grŵp Monitro ac Adolygu Arwahanu (SMARG), cynhelir cyfarfodydd yn chwarterol.

- **Mae'r Bwrdd yn pryderu bod carcharorion er eu Lles eu hun mewn CSU yn cael mynediad cyfyngedig i'r cyfundrefnau sydd ar gael ar yr adenydd.**

Ymddengys bod y fenter i osod troseddwy'r ifanc agored i niwed yn y Bloc Delta yn gweithio'n dda. Dylid llongyfarch y staff dan sylw am ddelio â'r broses integreiddio yn sensitif ac yn frwdfrydig ac am fonitro'r broses yn barhaus. Mae'r trefniad yn sicrhau bod y bobl ifanc hyn yn cael mynediad i gyfundrefn ddyddiol nad yw ar gael mewn CSU.

## **5.6 Uned Pobl Ifanc**

Yr amcanion allweddol yw lleihau aildrosedd, cynyddu hyder y cyhoedd, a gwella'r deilliannau i'r bobl ifanc.

Mae'r ffocws cyfredol ar adsefydlu, gyda gwaith yn cael ei wneud ar ailsefydlu perthnasoedd, a darparu hyfforddiant a chymorth, fel y gall y bobl ifanc hyn fyw bywydau didrosedd yn y dyfodol. Wrth i'r uned dyfu, ymddengys bod y staff a'r bobl ifanc wedi ymdopi'n dda â'r gwaith ehangu. Nodwyd gwelliannau yn yr Uned, gyda staff sy'n ymroddgar ac yn uchel eich cymhelliant yn cydweithio â'r bobl ifanc er mwyn cyrraedd canlyniadau gwell. Mae'r mentrau diweddar yn cynnwys celloedd camera ar gyfer pobl ifanc risg uchel, sy'n helpu'r staff i fonitro'r uned a chaniatáu iddynt ymateb yn gyflym i broblemau.

Erbyn hyn, mae gan Parc fwy o bobl ifanc risg uchel, mwy agored i niwed, mwy ar ddedfrydau hirach, ac felly gall yr uned fod yn eithaf ymfflamychol, yn dibynnu ar y math o bobl ifanc sydd yn y ddalfa.

Mae'r grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cymorth CAMHS i bobl ifanc wedi bod yn werthfawr iawn ac rydym yn cymhell Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i ariannu hyn ar ôl Gorffennaf 2010.

- **Mae'r Bwrdd yn argymhell monitro ymweliadau heb arolygaeth, darparu gweithgareddau mwy adeiladol a chanolbwyntiedig, a strategaeth gefnogi fwy trylwyr, er mwyn lleihau'r nifer o bobl ifanc sy'n destun adroddiad neu wedi'u cyfyngu yn eu celloedd.**

Mae'r uned yn rhedeg yn dda ac mae'r Bwrdd yn ymweld â hi bob wythnos. Mae gwaith da yn cael ei wneud, yn enwedig gyda chyfranogiad Ymddiriedolaeth y Tywysog.


## 5.7 Carchariad Diogelach

Mae aelodau'r Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd Carchariad Diogelach yn rheolaidd, ac mae'r rhain yn cael cefnogaeth dda gan amrywiol asiantaethau yn cynnwys Y Samariaid a Gwasanaethau Carcharol Reliance.

Bu dwy farwolaeth yn y ddalfa yn ystod y cyfnod adrodd ac, yn ôl yr arfer, mae'r Ombwdsmon wedi ymchwilio i'r rhain, gyda chwestau ar ddod.

Ble roedd ganddynt bryderon, roedd aelodau'r Bwrdd yn gwirio'r cofnodion yn y ffolderi Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) yn rheolaidd. Mae Parc wedi rhoi proffil uchel i Garchariad Diogelach erioed, a dylid canmol ei waith yn y maes hwn.

Mae pob digwyddiad wedi cael ei drin yn sensitif ac yn briodol.



### 5.7.1 Lleihau Trais

Mae strategaethau gwrth-fwlio yn eu lle ac maent yn cael proffil uchel yn Parc. Mae bwlio'n fwy cyffredin yn yr Uned Troseddwy'r Ifanc a'r Uned Pobl Ifanc nag yn yr Unedau Oedolion.

Mae'r Cynllun Cymorth Cymunedol [CSP] / Menter Lleihau Trais wedi arwain i welliant nodedig mewn diogelwch – ond oherwydd y trosiant carcharorion, mae'n rhaid i hon fod yn broses barhaus.

- **Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r dull dim goddefgarwch a fabwysiedir gan reolwyr Parc tuag at fwlio ac mae'n falch o nodi'r amrywiaeth o strategaethau sydd ar gael i ddelio â hyn.**

### **MEYSYDD ERAILL Y MAE'R BWRDD YN DYMUNO ADRODD ARNYNT**

#### **6.1 Llety**

Bydd y gwaith ehangu yn Parc yn cael ei gwblhau erbyn hydref 2010, a bydd yn golygu newidiadau sylweddol ym mhob agwedd o'r carchar, ond yn arbennig yn yr Unedau CSU a Gofal Iechyd. Bydd hyn yn cael effaith mawr ar waith y Bwrdd, a bydd angen iddo fynd i'r afael â hynny.

#### **6.2 Ymweliadau**

Mae'r arfer da gan dîm Parc yn Cefnogi Teuluoedd (PSF), sy'n datblygu perthnasoedd gyda theuluoedd carcharorion a'r gymuned yn gyffredinol, wedi cael ei gynnal.

#### **6.3 Cwestau**

Er bod y Cadeirydd blaenorol wedi ysgrifennu at y Crwner ynghylch pryderon y Bwrdd am y nifer o gwestau a oedd yn dal heb eu cynnal, yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae naw marwolaeth yn y ddalfa'n aros am gwestau o hyd, gydag un yn dyddio nôl i Fai 2005! Rydym yn cytuno ag argymhelliad y Crwner yn y cwést diweddar y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder roi ystyriaeth i'r pryderon ynghylch diffyg uned arbenigol yng Nghymru ar gyfer y carcharorion agored i niwed hynny sydd ar remând.

- **Mae'r Bwrdd yn tybio bod y nifer o gwestau sy'n dal heb eu cynnal yn hollol annerbyniol, ac am ei fod yn credu bod gan y teuluoedd a phawb arall sy'n ymwneud â'r rhain yr hawl i derfyniad, mae'n cymhell y Gweinidog i gymryd y camau priodol er mwyn datrys y mater.**

#### **6.4 Arlwyo**

Mae ansawdd prydau'n amrywio ond mae rhai bwydlenni'n cael graddfeydd da. Nododd y Bwrdd fod rhai o'r carcharorion tymor hir yn meddwl bod safon y bwyd wedi gwaethygu'n ddiweddar.

Mae'r anhawster o arlwyo ar gyfer alergeddau unigol gan yr adran arlwyo wedi achosi problemau hefyd. Er eu bod yn cydnabod yr anawsterau, mae'r un camgymeriadau'n ailddigwydd.

#### **6.5 Staff**

Mae'r diffyg cyfleusterau ffreutur ar gyfer y staff wedi creu rhai anawsterau. Er y gwnaed ymdrechion i ddarparu arlwyo, nid oedd lle ar gael ble gallai'r staff gyfarfod neu ymlacio heblaw am y neuadd ymweliadau.

#### **6.6 Caplaniaeth**

Mae'r tîm caplaniaeth rhyng-enwadol, rhyng-grefyddol yn parhau i fod yn adnodd tra gwerthfawr, ac mae'r Bwrdd yn canmol y fenter o fynd â'r caplaniaid i ffwrdd ar ymarfer meithrin tîm yn ddiweddar.

#### **6.7 Adroddiad a Chynllun Gweithredu Arolygiaeth Carchardai EM (HMIP)**

Yn dilyn Arolygiad yr HMIP yn Awst 2008, cyhoeddwyd adroddiad helaeth a manwl yn 2009. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfanswm o 161 awgrymiad.

Mae'n dda gan y Bwrdd nodi bod 128 o'r 151 gweithred a dderbyniwyd/a dderbyniwyd yn rhannol/a dderbyniwyd mewn egwyddor wedi cael eu cwblhau bellach. Caiff gweithredoedd eraill eu cwblhau wrth i'r gwaith o ehangu'r bloc preswyl fynd yn ei flaen ac mae rhai eraill sy'n berthnasol i NOMs ac Asiantaeth Ffiniau'r DU y tu allan i reolaeth Parc.

Mae cyfanswm o 11 pwynt cadw tŷ wedi cael eu gweithredu'n llawn hefyd.

## **GWAITH Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL**

### **7.1 Dyletswyddau Statudol, Cyffredinol a Phenodol**

Dylai'r Bwrdd yn CEM a STI Parc weithredu gyda chyflenwad o 20 aelod ond yn ystod y cyfnod adrodd hwn roedd dau aelod profiadol ar absenoldeb tymor hir oherwydd afiechyd, ymddeolodd un arall o'r bwrdd ac ymddeolodd un o'r chwe recriwt newydd cyn diwedd ei gyfnod prawf – felly yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi bod yn gweithio gyda chyflenwad o 16 – 18 aelod.

Mae Rheol Carchardai 1999 a Rheolau Sefydliadau Troseddwyr Ifanc 2000 yn gosod nifer o ofynion ar IMBau mewn perthynas â dyletswyddau statudol, cyffredinol a phenodol. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn mae'r aelodau'n mynychu ar sail rota ac yn gweithredu ac yn cyfathrebu fel tîm. Mae'n ofynnol i bob aelod fod yn bresennol yn 75% o gyfarfodydd misol y bwrdd bob blwyddyn. Yn ystod y cyfnod adrodd cyffredol roedd y presenoldeb fel a ganlyn:

**Bwrdd Monitro Annibynnol: CEM a STI Parc 2009 – 2010**

	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion*	Chwef
<b>Aelodau'r Bwrdd</b>	19	18	18	18	18	18	17	17	17	16	16	16
<b>Presenoldeb mewn Cyfarfodydd Bwrdd</b>	14	16	17	13	16	14	13	12	13	14	0	16

\*Gohiriwyd cyfarfod Ionawr 2010 oherwydd tywydd garw

### **7.2 Ymweliadau Rota**

Mae aelodau'r bwrdd ar rota bob wythnos ac yn cyfathrebu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod rhywun ar ddyletswydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Penodir un aelod i fonitro'r Uned Gofal a Gwahanu [CSU], Gofal Iechyd a'r Uned Pobl Ifanc a mynychu Adolygiadau Arwahanu. Cynhelir adolygiadau yn CSU fel rheol ddydd Llun, dydd Mercher a phrynhawn dydd Gwener. Mae aelodau eraill y bwrdd yn delio â cheisiadau a monitro. Mae rhai aelodau'n mynychu rhai gwrandawiaidau dyfarnu.

**Ymweliadau Rota ac Adolygiad Arwahanu 2009 – 2010**

	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag	Ion	Chwef	Cyfanswm
<b>Ymweliadau Rota</b>	44	43	48	38	36	41	33	36	33	28	51	44	475
<b>Adolygiadau 72 Awr</b>	4	5	6	8	4	3	5	5	5	6	6	9	66
<b>Adolygiadau 14 Diwrnod</b>	2	2	2	2	3	2	2	3	3	3	3	2	29

### **7.3 Hyfforddiant**

Mae pob aelod newydd o'r Bwrdd a benodwyd y llynedd – ar wahân i'r un a ymddiswyddodd oherwydd ei fod yn methu â chysoni rhyngwyneb ei oriau gwaith â'i ddyletswyddau IMB – yn awr yn llawn weithredol. Mae'r pump wedi mynychu amrywiol Gyrsiau Aelodau Newydd, ac fe neilltuwyd meysydd cyfrifoldeb i'r pump sy'n berthnasol i'w profiad allanol. Mae hyfforddiant parhaus wedi cael ei amserlennu hefyd.

Mynychodd dau aelod o'r bwrdd Gynhadledd flynyddol yr IMB yn Keele; mae'r Cadeirydd newydd a'r Is-Gadeirydd newydd wedi mynychu eu cyrsiau priodol; ac mae dau aelod arall wedi mynychu'r Cwrs Aelodau Profiadol. Ymwelodd naw aelod o'r Bwrdd â Charchar Abertawe.

Mae staff newydd y carchar yn parhau i gael gwybod gan Aelod o'r Bwrdd am rôl yr IMB, ac mae aelodau'r IMB yn parhau i gael sesiynau gwybodaeth hanner awr cyn Cyfarfodydd y Bwrdd gan aelodau o staff y carchar. Mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cael taith dywys o gwmpas yr estyniad newydd.

Cynhaliodd y Bwrdd Adolygiad o Berfformiad y Tîm ym mis Tachwedd, ac roedd pedwar aelod ar ddeg yn bresennol. Gwnaed newidiadau i'r meysydd cyfrifoldeb arbennig. Mae aelodau diweddaraf y Bwrdd, ynghyd â'r Bwrdd cyfan, yn parhau i elwa ar wybodaeth hollgynhwysfawr Clerc yr IMB.

Roedd y Bwrdd wrth ei fodd yn croesawu aelod hirsefydlog yn ôl ar ôl afiechyd estynedig.

## **7.4 Ceisiadau**

Gwnaed 668 o geisiadau i'r Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd, sef cynnydd bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Teimla'r Bwrdd y gallai llawer o'r ceisiadau gael eu trin gan staff yr adenydd / swyddogion personol yn y lle cyntaf cyn i'r carcharorion gysylltu â'r IMB.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cafwyd y nifer fwyaf o geisiadau ar gyfer Gofal Iechyd ac Eiddo. Roedd y ceisiadau ar gyfer Gofal Iechyd yn ymwneud yn bennaf â'r rhestr aros i weld y deintydd a materion meddyginiaeth ond mae llawer yn colli eu hapwyntiadau pa beth bynnag yw'r rhesymau. Mae'r Bwrdd wedi bod mewn cysylltiad parhaus â'r Rheolydd Gofal Iechyd a'r Cyfarwyddwr / Dirprwy Gyfarwyddwr ar hyd y flwyddyn mewn perthynas â'r mater hwn.

Erbyn hyn mae'r Bwrdd yn dychwelyd ceisiadau'n rheolaidd os na chawsant eu cyfeirio at aelod o staff y carchar yn gyntaf. Mae llawer o'r ceisiadau i'r Bwrdd yn ymwneud â materion y dylai'r Swyddogion Personol ddelio â nhw yn ddelfrydol. Ymddengys nad oes gan y carcharorion fwy o hyder yn y system ymgeisio gyffredinol fewnol yn awr na blwyddyn yn ôl, gan barhau i gredu bod rhai o'r staff yn haws siarad â nhw nag eraill.

- **Mae'r Bwrdd yn cymhell G4S i sicrhau bod ceisiadau y gellir eu trin ar yr adain yn cael eu prosesu'n gyflym ac yn ddioed er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn rhedeg yn hwylus.**

## **7.5 Crynodeb o'r Ceisiadau am weld y Bwrdd**

**CEM a STI Parc – Crynodeb o'r Ceisiadau 2009 – 2010**

<b>Côd Adnabod</b>	<b>Pwnc</b>	<b>Nifer a Dderbyniwyd</b>
A	Llety	25
B	Dyfarniadau / Arwahanu	20
C	Amrywiaeth	5
D1	Addysg / Cyflogaeth	30
D2	Cymhellion a Breintiau a Enillir (IEP) (Breintiau)	12
E1/2	Teulu / Ymweliadau / Adsefydlu	31
E3	Post / Teleffonau	39
F	Bwyd / Cegin	20
G	Gofal Iechyd	98
H	Eiddo / Ffreutur	120
I1	Cyfrifo Dedfryd	30
I2	Cyrffyw Cadw yn y Cartref (HDC)	26
I3	Alltudio	5
I4	Categorioidio	24
I6	Rhyddhau ar Drwydded dros Dro (ROTL)	12
J1	Cwynion ynghylch Staff	25
J2	Cwynion ynghylch Carcharorion	12
J3	Cwynion gan Staff	2
K	Trosglwyddiadau	27
L	Eraill	45
	<b>Cyfanswm</b>	<b>668</b>

## **7.6 Cyfarfodydd Mewnol ac Allanol**

Mae aelodau'r Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd yn cynnwys Carchariad Diogelach, Diogelu a'r Tîm Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mynychodd y Cadeirydd gyfarfodydd yr Ystad Carchardai wedi'u Contractio yn Llundain yn rheolaidd, a hefyd Cyfarfod Cadeiryddion Rhanbarthol Cymru. Mae aelod hirsefydlog o'r Bwrdd yn eistedd ar Banel Cyfwelwyr Annibynnol yr IMB.

## **7.7 Geirfa Talfyriadau**

**ACCT** Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm  
**BME** Duon a Lleiafrifoedd Ethnig  
**CAMHS** Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed  
**CSP** Cynlluniau Cymorth Cymunedol  
**FNP** Carcharor sy'n Wladolyn Tramor  
**GOOD** Trefn neu Ddisgyblaeth - Arwahanu dan Reol 45/49  
**HMP & YOI** Carchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwy'r Ifanc  
**HMIP** Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi  
**IND** Y Gyfarwyddiaeth Mewnfudo a Chenedligrwydd  
**IMB** Bwrdd Monitro Annibynnol  
**NOMS** Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r  
**POPS** Grŵp Cymorth Partneriaid Carcharorion a Theuluoedd  
**PSF** Parc yn Cefnogi Teuluoedd  
**POI** Lles y Carcharor eu Hun – Arwahanu dan Reol 45/49  
**SMARG** Grŵp Monitro ac Adolygu Arwahanu  
**WAG** Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)  
**YJB** Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid  
**YO** Troseddwy'r Ifanc  
**YP** Person Ifanc  
**YPU** Uned Pobl Ifanc